Ffurflen Protocol Herbert

Weithiau mae pobl â dementia'n crwydro ac yn mynd ar goll. Os ydych chi'n gofalu am rywun â dementia, gallwch chi lenwi'r ffurflen hon â gwybodaeth i'w rhoi i'r heddlu os bydd y person yn mynd ar goll.

Drwy gadw'r ffurflen wrth law, fydd dim rhaid i chi geisio cofio'r wybodaeth pan fyddwch chi dan straen os bydd rhywun yn mynd ar goll. Ac mae'n arbed amser, oherwydd gallwn ni ddechrau chwilio'n gynt.

Gallwch lenwi'r ffurflen ar eich cyfrifiadur neu ei hargraffu a'i llenwi â llaw. Cadwch y ffurflen yn ddiogel lle gallwch ddod o hyd iddi'n hawdd os bydd y person yn mynd ar goll. Gallech roi copi i ffrindiau, i aelodau o'r teulu ac i gymdogion. Cofiwch ddiweddaru'r wybodaeth hon os bydd rhywbeth yn newid. Dim ond os bydd y person yn mynd ar goll y bydd angen i chi roi'r ffurflen hon i'r heddlu.

Mae manylion yn ddefnyddiol ond peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gallu ateb pob cwestiwn. Mae lle ar ddiwedd y ffurflen i chi ychwanegu mwy o wybodaeth os nad oes digon o le i chi ateb unrhyw gwestiwn yn llawn. Mae croeso i chi ychwanegu tudalen arall at gopi papur neu atodi rhywbeth at e-bost.

Manylion sylfaenol y person

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Enwau eraill maen nhw'n eu defnyddio (fel llysenwau neu enwau eraill)

Dyddiad geni

Rhywedd

A yw eu rhywedd yr un fath â'u rhywedd adeg eu geni?

Cenedligrwydd

Ethnigrwydd

Enw cyntaf y gŵr, gwraig neu bartner

Cyfenw'r gŵr, gwraig neu bartner

Eu manylion cyswllt

Prif gyfeiriad cartref neu'r cyfeiriad cyswllt gorau

Unrhyw gyfeiriadau eraill gallen nhw fynd iddyn nhw, er enghraifft ail gartref

Rhif(au) ffôn symudol

Cyfeiriad(au) e-bost

Manylion cyfryngau cymdeithasol

Oes ganddyn nhw system tracio, neu ydyn nhw'n gwisgo neu'n cario gwybodaeth am ID neu am rybuddion meddygol? Rhowch fanylion

Disgrifiad corfforol

Taldra

Siâp corff (er enghraifft tal, byr, heini, *stocky*)

Lliw, hyd a steil gwallt

Pryd a gwedd

Blew ar y wyneb

Marciau amlwg

Unrhyw nodweddion corfforol sy'n eu gwahaniaethu

Unrhyw beth arall am eu hymddangosiad corfforol a fyddai'n ddefnyddiol i ni ei wybod

Iechyd

Disgrifiwch eu math o ddementia a'r symptomau

Unrhyw gyflyrau meddygol eraill fel diabetes, asthma, problemau gyda'r galon, gan gynnwys symptomau

Pa feddyginiaeth maen nhw'n ei chymryd?

Beth sy'n digwydd yn y tymor byr os nad ydyn nhw'n cymryd eu meddyginiaeth?

Beth sy'n digwydd yn y tymor hir (dros amser) os nad ydyn nhw'n cymryd eu meddyginiaeth?

Ydyn nhw'n cael unrhyw broblemau'n cerdded?

Ydyn nhw'n defnyddio ffon gerdded neu gymorth cerdded arall?

Ydyn nhw'n gallu symud rhwng dodrefn heb gymorth?

Am ba mor hir maen nhw'n gallu cerdded cyn blino?

Ydych chi'n meddwl y gallen nhw ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi ffrae, neu'n eu rhoi nhw neu bobl eraill mewn perygl? Os ydych chi, rhowch fanylion

Unrhyw ofnau sydd ganddyn nhw, fel ofn dŵr neu uchder

Sut gallen nhw ymateb pe bai rhywun yn achosi gofid neu'n rhoi ofn iddyn nhw?

Unrhyw wybodaeth arall am eu hiechyd sy'n bwysig yn eich barn chi

Arian

Faint o arian ydych chi'n meddwl gallen nhw gael gafael arno?

Enw'r banc

Rhif y cyfrif banc

Cod didoli'r banc

Teithio a thrafnidiaeth

Unrhyw docynnau teithio sydd ganddyn nhw (a'r rhifau os ydych chi'n eu gwybod)

Y safle bws agosaf i ble maen nhw'n byw

Yr orsaf drenau agosaf i ble maen nhw'n byw

Unrhyw deithiau rheolaidd maen nhw'n eu gwneud ar fws neu drên

Ydyn nhw'n gallu gyrru?

Manylion unrhyw gerbydau (gan gynnwys beic) maen nhw'n gallu eu defnyddio, gan gynnwys gwneuthuriad, model, lliw, rhif cofrestru ac unrhyw beth nodweddiadol am y cerbyd

Unrhyw un arall sy'n darparu cludiant iddyn nhw, fel ffrindiau a chymdogion, gan gynnwys manylion y cerbydau maen nhw'n eu defnyddio

Cyfathrebu

Ai Cymraeg/Saesneg yw eu mamiaith? Os ddim, beth yw eu lefel o ran siarad Cymraeg/Saesneg?

Ydyn nhw'n siarad unrhyw ieithoedd eraill?

A oes unrhyw broblemau cyfathrebu dylem ni wybod amdanynt (er enghraifft a ydyn nhw'n fyddar neu'n awtistig)?

Oes gennych chi unrhyw gyngor i ni ar gyfathrebu â nhw, er enghraifft sut i'w pwyllo os ydyn nhw mewn gofid?

Swyddi ac addysg

Oes ganddyn nhw swydd ar hyn o bryd, neu ydyn nhw'n astudio neu'n gwirfoddoli? Os ydyn nhw, dywedwch wrthym ni beth maen nhw'n ei wneud, gan gynnwys teitl y swydd neu'r rôl, y cyflogwr, neu'r ysgol

Cyfeiriad gwaith, yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol

Rhif ffôn a chyfeiriad e-bost

Mannau o ddiddordeb

Unrhyw le maen nhw'n mynd ar wyliau'n rheolaidd

Unrhyw hen gyfeiriadau pwysig, gan gynnwys cyfeiriadau o'u plentyndod neu hen weithleoedd. Os mai dim ond rhan o'r cyfeiriad neu'r lleoliad rydych chi'n ei gwybod, peidiwch â phoeni, dywedwch bopeth rydych chi'n ei wybod

Unrhyw deulu neu ffrindiau agos gallen nhw ymweld â nhw. Rhowch eu henwau, eu cyfeiriadau a'u manylion cyswllt os gallwch chi

Eglwys, mosg, synagog neu deml maen nhw'n mynd iddi, gan gynnwys y cyfeiriad os ydych chi'n ei wybod

Hoff gaffis, bwytai neu dafarndai

Siopau maen nhw'n ymweld â nhw'n aml

Siopau fferyllydd maen nhw'n eu defnyddio'n aml

Clinigau neu ysbytai maen nhw'n eu mynychu'n rheolaidd

Dywedwch wrthym ni am unrhyw fannau arwyddocaol eraill maen nhw'n ymweld â nhw'n aml, fel hoff lwybr cerdded, rhandir (allotment), maes chwarae neu fynwent

Diddordebau

Diddordebau, nawr ac yn y gorffennol

Hoff weithgareddau dan do, er enghraifft mynd i'r sinema

Hoff weithgareddau awyr agored, er enghraifft chwarae bowls, criced, pysgota

Grwpiau cymunedol neu ddigwyddiadau wythnosol maen nhw'n cymryd rhan ynddynt

Trefn

Dywedwch wrthym ni am eu trefn wythnosol neu am bethau maen nhw'n eu gwneud fel mater o drefn

	Bore	Prynhawn	Gyda'r nos
Dydd Llun			
Dydd Mawrth			
Dydd Mercher			
Dydd Iau			
Dydd Gwener			
Dydd Sadwrn			
Dydd Sul			

Adegau eraill maen nhw wedi mynd ar goll

Os ydyn nhw wedi mynd ar goll o'r blaen, dywedwch wrthym ni:

Beth ddigwyddodd?

Ble cafwyd hyd iddyn nhw?

Pam roedden nhw yno?

Pobl eraill y byddwn angen siarad â nhw o bosib

Manylion cyswllt eu meddyg teulu, gan gynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn y feddygfa

Manylion cyswllt gweithiwr cymdeithasol, gan gynnwys cyfeiriad a rhif ffôn

Manylion unrhyw weithwyr proffesiynol eraill dylem ni wybod amdanynt, er enghraifft deintydd neu weithiwr meddygol proffesiynol arall, cwnselydd neu therapydd

Unrhyw un arall dylem ni siarad â nhw, er enghraifft teulu, ffrindiau, cyn-bartner neu unrhyw un ag atwrneiaeth arhosol (LPA) neu ddirprwyon wedi'u penodi gan y llys

Llun

Atodwch lun diweddar

Os ydych chi'n argraffu'r ffurflen hon, atodwch lun diweddar yma.

Os ydych chi'n e-bostio'r ffurflen hon, atodwch lun diweddar at yr e-bost.

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi'n meddwl dylem ni wybod am unrhyw fanylion eraill, dywedwch wrthym ni yma

Y person sy'n llenwi'r ffurflen hon

Eich enw(au) cyntaf

Eich cyfenw

Eich perthynas â'r person sydd dan sylw yn y ffurflen hon

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Cyfeiriad

Unrhyw ffyrdd eraill o gysylltu â chi

Dyddiad cafodd y ffurflen hon ei diweddaru ddiwethaf